
TYWYN

# THE MAGIC LANTERN

CINEMA

**June** 2026 **Mehefin** 2026































## FILMS • LIVE MUSIC • THEATRE • SPECIAL EVENTS

---

FFILMIAU • CERDDORIAETH FYW • THEATR • DIGWYDDIADAU ARBENNIG







Scan the QR code to visit our website

## Table of Contents
## Tabl Cynnwys

**Films Showing**
Chitty Chitty Bang Bang ................9
Goat ................................................ 6
Fairyland ......................................... 8
Finding Emily ................................. 5
Hoppers .......................................... 6
Jo in the Water .............................. 12
Madfabulous ................................. 4
My Fair Lady ................................. 12
National Emergency Briefing ........7
Normal ........................................... 4
Our Land ........................................ 8
Power Ballad .................................. 7
Rose of Nevada .............................. 9
Star Wars:
The Mandalorian & Grogu ........... 6
The Amazing Digital Circus .......... 5
The Christophers .......................... 4
The North........................................ 5
The Sheep Detectives ....................6
Tuner.................................................7
You, Me & Tuscany......................... 4
**Iaith i Bawb** .......................... 16 - 17
**Listings** ....................................10 - 11
**Music Nights** ............................... 14
**125 Years of The Magic of Film in Tywyn**
Back to the Future ........................ 13
Legally Blonde .............................. 13
**Live Theatre**
Selene ............................................. 18
**Regular Events**
**Film Club** ...................................... 15
**Quiz Night** .................................... 15
**Theatre On Screen**
NT Live:
Les Liaisons Dangereuses ...........18
**Coming Next Month**
Open Mic Night Celebration.........19
Rev Awdry: The Thomas the Tank Engine Man.....................19

## Throwback Thursdays

**Join us as we begin a journey through the decades, celebrating the history, revisiting with nostalgia and reuniting with special characters all the way from the 1940s through to the 2010s!**


Dress up, sing, dance, enjoy fun, games and activities.
Each event will be different, but all will be very special!

**Tickets for all Throwback Thursday events are:**
**Standard £12 Concessions £10 Members £8**

All start at 6pm with doors opening at 5pm.



9th JULY




6th AUGUST



16th JULY



13th AUGUST



23rd JULY



20th AUGUST



30th JULY



27th AUGUST

## Clasuron Dydd Iau

**Ymunwch â ni wrth i ni gychwyn ar daith drwy'r degawdau, gan ddathlu hanes, hiraethu am gyfnod a fu, ac ail-ymweld â chymeriadau arbennig yr holl ford o'r 1940au hyd at y 2010au!**

**Gwisgwch i fyny, canu, dawnsio, a chael hwyl yn chwarae gemau a gweithgareddau. Bydd pob digwyddiad yn wahanol, ond bydd pob un yn arbennig iawn!**

**Mae tocynnau ar gyfer pob digwyddiad yn £12 am docyn Safonol a £10 am docyn ar gyfer Aelodau £8.**

# A guide to our Listings

A quick guide to the symbols you'll see throughout this programme.

**Canllaw cyflym i'r symbolau y byddwch chi'n eu gweld drwy gydol y rhaglen hon.**

**DS(S) -**
Descriptive Subtitles on Screen
**Isdeitlau Disgrifiadol ar y Sgrin**
DS - Descriptive subtitles available on handsets
**Isdeitlau disgrifiadol ar gael ar declynnau llaw**

**AD -**
Audio Description
**Disgrifiad Sain**

### Relaxed

These screenings do not follow our usual code of conduct. You can talk, move around, the lights will remain on but dimmed, the sound is lower, there are no trailers or adverts, the bar remains open and there is a breakout space where you can come and spend some quiet time if needed. The film will have descriptive subtitles if available.

**Nid yw'r dangosiadau hyn yn dilyn ein cod ymddygiad arferol. Cewch siarad a symud o gwmpas, bydd y goleuadau'n cael eu pylu ac nid eu diffodd, mae'r sain yn is, nid oes rhagluniau na hysbysebion, mae'r bar yn parhau ar agor ac mae ystafell cymryd seibiant ar gael i chi dreulio ychydig o amser tawel ynddi os oes angen. Bydd gan y ffilm isdeitlau disgrifiadol os oes rhai ar gael.**

### LL - Little Lanterneers

These screenings are intended for little ones and are similar to Relaxed screenings in that we leave the lights slightly on, turn the sound slightly down and don't expect people to follow our code of conduct.

The film will have descriptive subtitles if available. The bar remains open.

**Mae'r dangosiadau hyn i blant bach ac maen nhw'n debyg i ddangosiadau Hamddenol gan nad ydym ni'n diffodd y goleuadau'n llwyr, yn troi y sain ychydig yn is ac nad ydym yn disgwyl i bobl ddilyn ein cod ymddygiad.**

**Bydd gan y ffilm isdeitlau disgrifiadol os ydynt ar gael. Mae'r bar yn parhau ar agor.**

### TS - Teen Screens

These screenings are open to all but if you are between 12 and 19 your tickets only cost £5.50 and include a soft drink and a small popcorn.

**Mae croeso i bawb yn y dangosiadau hyn ond os ydych chi rhwng 12 a 19 mlwydd oed bydd eich tocyn yn costio £5.50 yn unig ac yn cynnwys diod ysgafn a phopgorn bach.**

### MM – Magic Monday

These are relaxed screenings and cost just £4.50 a ticket and include a free tea or filter coffee

**Mae'r rhain yn ddangosiadau hamddenol ac mae tocyn yn costio £4.50 yn unig ac yn cynnwys te neu goffi hidlo am ddim.**

### GA – Golden Agers

These screenings are open to all but if you are over 60, tickets are just £4.50 and include a free tea or filter coffee. The film will have descriptive subtitles if available.

**Mae croeso i bawb yn y dangosiadau hyn ond os ydych chi'n hŷn na 60 mlwydd oed, mae tocyn yn costio £4.50 yn unig ac yn cynnwys te neu goffi hidlo am ddim. Bydd gan y ffilm isdeitlau disgrifiadol os ydynt ar gael.**

### FC – Film Club

These screenings will be followed by an informal friendly chat about the film. All welcome, you do not need to be a film club Member to come to the screening. **See page 15 for this month's meeting.**

**Bydd sgwrs anffurfiol gyfeillgar am y ffilm yn dilyn y ffilmiau hyn. Croeso i bawb ond nid oes angen bod yn Aelod Clwb Ffilm i ddod i'r dangosiad.**
**Gweler tudalen 15 am gyfarfod y mis hwn.**

# Films showing in **June**

# Ffilmiau yn dangos ym mis **Mehefin**




## You, Me & Tuscany

12A 1hr 45m DS AD MM TS GA

Genre: Romantic Comedy
Starring: Halle Bailey, Regé-Jean Page

When a woman crashes at an empty Italian villa, posing as the owner's fiancée, she discovers an unexpected romance that may transform her life.

**Pan fo menyw yn aros mewn fila wag yn yr Eidal, gan esgus bod yn ddyweddi i'r perchennog, mae'n canfod rhamant annisgwyl a allai drawsnewid ei bywyd yn llwyr.**




## The Christophers

MM

15 1hr 40m DS(S) DS AD

Genre: Comedy, Drama
Starring: Michaela Coel, Ian McKellan

The children of a once famous artist hire a forger to complete some unfinished, long abandoned canvases so they'll have an inheritance when he dies. A brilliant and funny film with Sir Ian on his best form ever.

**Mae plant arlunydd a fu'n enwog ar un tro, yn cyflogi ffugiwr i gwblhau rhai cynfasau anorffenedig fel y gallant gael etifeddiaeth pan fydd yn marw. Ffilm wych a doniol, gyda Syr Ian ar ei orau erioed.**




## Normal

15 1hr 28m DS(S) DS AD

Genre: Heist, Action, Thriller
Starring: Bob Odenkirk

A temporary small-town sheriff uncovers dark mysteries after a local bank robbery. This is a bone crunching John Wick style action film with dark humour and a charismatic hero.

**Mae siryf dros dro pentref bychan yn datgelu dirgelion tywyll yn dilyn lladrad mewn banc lleol. Mae hon yn ffilm llawn cyffro a thrais yn arddull y ffilmiau John Wick gyda hiwmor tywyll ac arwr carismatig.**

**MADE IN WALES**




## Madfabulous

TS

12A 1hr 48m DS(S) DS AD

Genre: Drama

A riotous, uncompromising celebration of otherness set in the late 19th century and inspired by the 5th Marquess of Anglesey, a flamboyant peer who smashed society's notions of class, gender and decorum.

**Ffilm sy'n ddathliad digyfaddawd a llawn hwyl o fod yn wahanol wedi'i gosod yn niwedd y 19eg ganrif ac wedi'i ysbrydoli gan 5ed Ardalydd Ynys Môn, arglwydd lliwgar a chwalodd syniadau cymdeithas am ddosbarth, rhywedd a gwedduster.**




## The Amazing Digital Circus


12 1hr 33m

**See it first here!** The highly anticipated finale (plus the penultimate episode) of the internet phenomenon on release, a full two weeks before YouTube/Netflix! Avoid inevitable spoilers and see it on the big screen first!

A woman finds herself trapped in a virtual circus where she and five other humans are subject to the whims of wacky AI. In this digital purgatory they must face frightening NPCs and cope with their own personal traumas.

**Byddwch y cyntaf i'w gweld yma! Pennod olaf hirddisgwyliedig (ynghyd a'r bennod olaf ond un) o'r gyfres we lwyddiannus hon ar y diwrnod y caiff ei rhyddhau, pythefnos llawn cyn Youtube/Netflix! Osgowch spoilers a'i gweld ar y sgrin fawr yn gyntaf!**

**Mae menyw yn canfod ei hun yn sownd mewn syrcas rhithiol lle mae hi a phum person arall yn destun i fympwyon AI gwallgof. Yn y purdan digidol hwn mae'n rhaid iddynt wyneb NPCs dychrynllyd ac ymdopi gyda'u trawma personol eu hunain.**




**ONE OFF SCREENING**

**DANGOSIAD UNTRO**

## The North

15 2hr 10m

Two old friends are walking 600 km through the Scottish highlands, to reconnect with each other, nature and parts of themselves they lost. Described by The Guardian as "majestic" and "perhaps the ultimate hiking film"

**Mae dau hen ffrind yn cerdded 600 km drwy ucheldiroedd yr Alban, i ail-gysylltu â'i gilydd, natur a rhannau ohonynt eu hunain maent wedi'u colli. Wedi'i disgrifio gan The Guardian fel "godidog" ac "efallai'r ffilm heicio orau erioed"**




## Finding Emily

PG 1hr 36m

Genre: Romantic Comedy

DS(S) DS AD TS

When a lovesick musician is given the wrong number for his dream girl, he teams up with a driven psychology student to find her. A Working Title production – the team behind Bridget Jones, The Sheep Detectives, Love Actually,...basically most of the funniest British films ever made!

**Pan mae cerddor sydd dros ei ben a'i glustiau mewn cariad yn derbyn y rhif anghywir gan ferch ei freuddwydion, mae'n cael help myfyriwr seicoleg brwdfrydig i ddod o hyd iddi. Cynhyrchiad Working Title - y tîm y tu ôl i Bridget Jones, The Sheep Detectives, Love Actually,... yn syml, y rhan fwyaf o'r ffilmiau Prydeinig mwyaf doniol erioed!**

Films showing in **June**




## Star Wars: The Mandalorian & Grogu

TS

12A 2hr 12m DS(S) DS AD

The evil Empire has fallen but Imperial warlords remain scattered throughout the galaxy. As the fledgling New Republic works to protect everything the Rebellion fought for, they enlist the help of legendary Mandalorian bounty hunter Din Djarin and his young apprentice Grogu

**Mae'r Ymerodraeth ddrwg wedi cwympo ond mae arglwyddi rhyfel Ymerodrol yn parhau i fod wedi'u gwasgaru ledled yr alaeth. Wrth i'r egin-Weriniaeth Newydd geisio amddiffyn popeth y bu'r Gwrthryfel yn ymladd drosto, maen nhw'n gofyn am gymorth yr heliwr bownti Mandaloriaidd enwog Din Djarin a'i brentis ifanc Grogu**




## Hoppers

LL

U 1hr 44m DS AD

Mabel inhabits a robotic beaver so that she can talk to the animals in this hilarious new tale from Pixar.

**Mae Mabel yn byw y tu mewn i afanc robotig fel bod modd iddi siarad ag anifeiliaid yn y stori newydd ddoniol hon gan Pixar.**




## Goat

LL

PG 1hr 40m DS AD

A small goat with big dreams gets a once in a lifetime shot to join the pros and play roarball, a high-intensity, co ed, full-contact sport dominated by the fastest, fiercest animals in the world.

**Mae gafr fach gyda breuddwydion mawr yn cael cyfle bythgofiadwy i ymuno â'r chwaraewyr proffesiynol i chwarae 'roarball', gêm ddwys, galed wedi'i dominyddu gan yr anifeiliaid cyflymaf a mwyaf ffyrnig yn y byd.**




## The Sheep Detectives

LL

PG 1hr 49m DS AD

Every night a shepherd reads aloud a murder mystery, pretending his sheep can understand. When he is found dead, the sheep realize at once that it was a murder and think they know everything about how to go about solving it.

**Bob nos mae bugail yn darllen tensiwn llofruddiaeth mewn llais uchel, gan wneud fel pe bai ei ddefaid yn gallu deall. Pan gaiff ei ganfod wedi marw, mae'r defaid yn sylweddoli ar unwaith mai llofruddiaeth oedd hi ac yn meddwl eu bod yn gwybod popeth am sut i fynd ati i'w datrys.**




## Power Ballad

15 1hr 38m DS(S) DS AD

Genre: Comedy, Drama, Music
Starring: Paul Rudd, Nick Jonas
Directed by John Carney (Sing Street, Once, Begin Again)

**Recommended by Team ML**

This is fabulous! A washed-up wedding singer and a fading boy band star bond over music and a late night jam session. When Danny turns Rick's song into a hit, he sets out to reclaim the recognition he believes he deserves. Funny, moving with a pretty catchy tune!

**Mae hon yn wych! Mae canwr priodas sydd wedi gweld dyddiau gwell a seren band bechgyn y mae ei enwogrwydd yn pylu, yn dod yn gyfeillion drwy sesiwn jamio a cherddoriaeth. Pan mae Danny yn cael llwyddiant gyda chân Rick, mae'n ceisio cael y gydnabyddiaeth y mae'n credu ei fod yn ei haeddu. Doniol, gwefreiddiol a chân fachog!**




## Tuner

15 1hr 49m DS(S) DS AD

**Recommended by Team ML**

Leo Woodall stars as a gifted young piano tuner whose heightened sense of hearing draws the attention of criminals, who see his talents as useful for opening safes as well as for tuning Steinways.

**Mae Leo Woodall yn serennu fel tiwniwr piano ifanc a thalentog y mae ei glyw cryfach na'r arfer yn denu sylw troseddwyr, sy'n gweld ei dalentau fel rhai defnyddiol ar gyfer agor coffrau yn ogystal ag ar gyfer tiwnio pianos Steinway.**




## People's Emergency Briefing

**Sunday 14th June at 6pm**

The UK faces a growing climate and nature emergency. Yet most people have never been fully briefed on what it means for our lives, our economy and our future.


This new film from the National Emergency Briefing sets out the risks facing the nation - and the credible, positive responses available - in a clear and accessible account designed for screenings in communities across the UK.

**Mae'r DU yn wynebu argyfwng hinsawdd a byd natur cynyddol. Ac eto, nid yw'r rhan fwyaf o bobl wedi cael y darlun llawn o ran yr hyn mae'n ei olygu ar gyfer ein bywydau, ein heconomi a'n dyfodol.**

**Mae'r ffilm newydd hon gan National Emergency Breifing yn nodi'r peryglon sy'n wynebu'n genedl - a'r ymatebion hygoel, cadarnhaol sydd ar gael - a hynny'n glir a hygyrch ar gyfer dangosiadau mewn cymunedau ledled y DU.**

**Each month the Lantern team will choose films that not only have we seen and can personally recommend, but that also fit into our programming ethos. Films about the environment, social justice, representation of minority groups, as well as screening the best of the best from around the world and films from important and respected filmmakers. We also believe cinema is for everyone and want everyone in our community to have the chance to see great films so we have included films that will be discounted or even free!**

**Bob mis bydd tîm y Llusern yn dewis ffilm yr ydym, nid yn unig wedi'u gweld ac y gallwn eu hargymell yn bersonol, ond sydd hefyd yn cyd-fynd â'n hethos rhaglennu. Ffilmiau ynglŷn â'r amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol, cynrychioli grwpiau lleiafrifol, ynghyd â dangos y ffilmiau gorau oll o bob cwr o'r byd a ffilmiau gan wneuthurwyr pwysig ac uchel eu parch. Rydym hefyd yn credu fod sinema ar gyfer pawb ac eisiau gweld pawb yn ein cymuned yn cael y cyfle u weld ffilmiau gwych, felly rydym wedi cynnwys ffilmiau lle gallwch eu gweld am bris rhatach neu hyd yn oed yn rhad ac am ddim!**




## Our Land

12A 1hr 31m DS(S) MM

Genre: Documentary Directed by Orban Wallace

### Recommended by Sara

A journey over the walls that divide us, to explore the age-old debate of land and power, amid the fight for greater access to nature.

*"This is an interesting and balanced documentary about the public's right to roam and access our countryside and landowners right to protect the land that has been entrusted to them (rightly or wrongly.) While some of the landowners are buffoonish and easy to dismiss, others are more thoughtful and considered."*

Taith dros y muriau sy'n ein gwahanu, i ystyried yr hen ddadl dros dir a phŵer, yng nghanol y frwydr dros well fynediad at fyd natur.

*"Mae hon yn rhaglen ddogfen ddifyr a chytbwys am hawl y cyhoedd i grwydro a chael mynediad i'n cefn gwlad a hawl perchnogion tir i amddiffyn y tir sydd wedi'i roi yn eu gofal (boed yn gywir neu'n anghywir.) Er bod rhai o'r tirfeddianwyr yn hurt ac yn hawdd eu diystyru, mae eraill yn fwy meddylgar ac ystyriol."*




## Fairyland

15 1hr 56m GA

Genre: Drama

Directed by Andrew Durham

### Recommended by Annie

*"It's a beautiful coming of age film that centres round a daughter-father relationship. Based as it is on the memoirs of Alysia Abbott, the story unfolds through her eyes, as a child listening in and looking out for clues that might make sense of the bohemian San Francisco flat share where her father develops his writing and explores his sexuality".*

Confusion, innocence, daring, freedom, resentment, acceptance, anger and rebellion - all intertwine with love and loss.

*"Mae'n ffilm hardd am dyfu i fyny sy'n canolbwyntio ar berthynas tad a merch. Yn seiliedig ar hunangofiannau Alysia Abbot, mae'r stori yn cael ei hadrodd o'i safbwynt hi, fel plentyn yn gwrando ac yn edrych am gliwiau a allai wneud synnwyr o'r fflat bohemaidd yn San Francisco lle mae ei thad yn datblygu ei grefft ysgrifennu ac yn ystyried ei rywioldeb".*

Dryswch, diniweidrwydd, beiddgarwch, rhyddid, dal dig, derbyniad, dicter a gwrthryfel - mae'r cyfan yn cydblethu â chariad a cholled.




## FREE FAMILY FILM!

### Chitty Chitty Bang Bang

U 2hr 24m

**Sunday 28th June at 11am**

**The first of (hopefully) monthly screenings of classic British family films for free! This event will also feature the fabulous Crafty Sue! There will be crafts before the film so come along from 10am to enjoy a marvellous morning of family fun.**

Inventor Caractacus Potts transforms an old car into a magical flying vehicle that transports him and his family to a kingdom ruled by the evil Baron Bomburst.

## FFILM AM DDIM I'R TEULU!

**Y cyntaf o ddangosiadau (gyda gobaith) misol o ffilmiau Prydeinig clasurol i'r teulu oll yn rhad ac am ddim! Bydd y digwyddiad hwn hefyd yn cynnwys Crafty Sue! Bydd crefftau cyn y ffilm felly dewch yn llu o 10am i fwynhau bore llawn hwyl i'r teulu oll.**

Mae'r dyfeisiwr Caractacus Potts yn trawsnewid hen gar yn gerbyd hudolus a all hedfan sy'n ei gludo ef a'i deulu i deyrnas sy'n cael ei rheoli gan y Barwn Bomburst drwg.

## Rose of Nevada

15 1hr 54m MM

Starring: George MacKay, Callum Scott

Directed by Mark Jenkin


### Recommended by Rowan

*"A haunting ghost story that highlights the impact of the decline of the fishing industry in Cornwall, captivatingly presented in Jenkin's (Bait) unique style."*

A mysterious boat returns to a village 30 years after vanishing. Two men join its crew hoping for better fortune. After one voyage, they find themselves transported back in time, mistaken for the original crew.

*"Stori ysbryd atgofus sy'n tynnu sylw at effaith dirywiad y diwydiant pysgota yng Nghernyw, wedi'i chyflwyno'n hudolus yn arddull unigryw Jenkin (Bait)."*

Mae cwch dirgel yn dychwelyd i bentref 30 mlynedd ar ôl iddo ddiflannu. Mae dau ddyn yn mentro'u siawns drwy ymuno â'r criw. Yn dilyn un fordaith, maent yn sylwi eu bod wedi mynd yn ôl mewn amser, wedi'u camgymryd am y criw gwreiddiol.



# **June** Programme

Please see website for full film details and trailers

| Day | Time | Event | Running time | Notes |
|---|---|---|---|---|
| Mon 1 | 11am | You Me & Tuscany 12A | 1hr 45m | MM |
| | 3pm | Our Land 12A | 1hr 31m | DS (S) |
| | 7pm | The Christophers 15 | 1hr 40m | DS (S) |
| Tue 2 | 3pm | The Christophers 15 | 1hr 40m | |
| | 6.15pm | Our Land 12A | 1hr 31m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | *Doors 8.30pm* |
| Wed 3 | 4pm | You Me & Tuscany 12A | 1hr 45m | TS |
| | 7.30pm | The Christophers 15 | 1hr 40m | FC |
| Thu 4 | 1pm | You Me & Tuscany 12A | 1hr 45m | GA |
| | 6pm | The Amazing Digital Circus 12 | 1hr 33m | |
| Fri 5 | 6pm | Madfabulous 12A | 1hr 48m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night - Open Mic Night** | | *Doors 8.30pm* |
| Sat 6 | 10am - 11.30am | **Ymarfer Club** | | |
| | 3pm | Patagonia plus Q&A 15 | 1hr 59m | **Iaith i Bawb** |
| | 7pm | Madfabulous 12A | 1hr 48m | |
| Sun 7 | 11am | Hoppers U | 1hr 44m | LL |
| | 2pm | The Amazing Digital Circus 12 | 1hr 33m | |
| | 5.15pm | The North 15 | 2hr 10m | |
| Mon 8 | 11am | Our Land 12A | 1hr 31m | MM |
| | 3pm | Madfabulous 12A | 1hr 48m | DS (S) |
| | 7pm | Normal 15 | 1hr 28m | DS (S) |
| Tue 9 | 3pm | Normal 15 | 1hr 28m | |
| | 6pm | Rose of Nevada 15 | 1hr 54m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | *Doors 8.30pm* |
| Wed 10 | 4pm | Madfabulous 12A | 1hr 48m | TS |
| | 7.30pm | Rose of Nevada 15 | 1hr 54m | FC |
| Thu 11 | 1pm | Patagonia 15 | 1hr 59m | GA |
| | 7pm | Normal 15 | 1hr 28m | |
| Fri 12 | 6pm | Tuner 15 | 1hr 49m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night - Still Hate Thatcher** | | *Doors 8.30pm* |
| Sat 13 | 11am | Tuner 15 | 1hr 49m | **Brunch Screening!** |
| | 4pm | Tuner 15 | 1hr 49m | |
| | 7.30pm | **Cocktail & Classics - Legally Blonde** 12A | 1hr 36m | **125 Season** |
| Sun 14 | 11am | The Sheep Detectives PG | 1hr 49m | LL |
| | 2.30pm | Tuner 15 | 1hr 49m | |
| | 6pm | **People's Emergency Briefing** | | |
| Mon 15 | 11am | Rose of Nevada 15 | 1hr 54m | MM |
| | 3pm | Madfabulous 12A | 1hr 48m | DS (S) |
| | 7pm | Tuner 15 | 1hr 49m | DS (S) |
| Tue 16 | 2.30pm | Tuner 15 | 1hr 49m | |
| | 6pm | Fairyland 15 | 1hr 56m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | *Doors 8.30pm* |
| Wed 17 | 4pm | Legally Blonde 12A | 1hr 36m | TS |
| | 7.30pm | Fairyland 15 | 1hr 56m | |

Cymerwch gip ar ein gwefan i weld manylion llawn y ffilmiau a chipolwg ohonynt

# Rhaglen **Mehefin**

| Day | Time | Event | Running time | Notes |
|---|---|---|---|---|
| Thu 18 | 1pm | Fairyland 15 | 1hr 56m | GA |
| | 7pm | Tuner 15 | 1hr 49m | |
| Fri 19 | 2pm | Jo in the Water plus Q&A 12A | 1hr 17m | |
| | 6pm | **Release Date! Opening night!** Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with Laundrette + The Muralists** | | *Doors 8.30pm* |
| Sat 20 | 11am | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | **Sgrin a Sgwrs** |
| | 7pm | **Back to the Future** PG **Plus LIVE 80's Music** | 1hr 56m | **125 Season** |
| Sun 21 | 11am | Goat PG | 1hr 40m | LL |
| | 2.30pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| Mon 22 | 11am | Jo in the Water 12A | 1hr 17m | MM |
| | 2pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| | 7pm | Finding Emily PG | 1hr 36m | DS (S) |
| Tue 23 | 3pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| | 6pm | Finding Emily PG | 1hr 36m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | *Doors 8.30pm* |
| Wed 24 | 4pm | Finding Emily PG | 1hr 36m | TS |
| | 7.30pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| Thu 25 | 1pm | Jo in the Water 12A | 1hr 17m | GA |
| | 7pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| Fri 26 | 6pm | Power Ballad 15 | 1hr 38m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with The Midnight Jukes** | | *Doors 8.30pm* |
| Sat 27 | 11am | Power Ballad 15 | 1hr 38m | **Brunch Screening!** |
| | 3.30pm | Star Wars: The Mandalorian & Grogu 12A | 2hr 12m | DS (S) |
| | 7.30pm | **NT Live: Les Liaisons Dangereuses** 12A | 2hr 30m | |
| Sun 28 | 11am | Chitty Chitty Bang Bang U | 2hr 24m | **FREE ENTRY!** |
| | 3pm | Star Wars: The Mandalorian & Grogu 12A | 2hr 12m | |
| | 6.30pm | **Members Night** | | |
| Mon 29 | 11am | The Christophers 15 | 1hr 40m | MM |
| | 2.30pm | Effi o Blaenau 15 | 1hr 30m | |
| | 7pm | Power Ballad 15 | 1hr 38m | DS (S) |
| Tue 30 | 1.30pm | **Nostalgia Matinee** - My Fair Lady U | 2hr 50m | **All Tickets £5** |
| | 6pm | Power Ballad 15 | 1hr 38m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | *Doors 8.30pm* |
| | | **JULY / GORFENNAF** | | |
| Wed 1 | 4pm | Star Wars: The Mandalorian & Grogu 12A | 2hr 12m | TS |
| | 8pm | Star Wars: The Mandalorian & Grogu 12A | 2hr 12m | |
| Thu 2 | 1pm | The Sheep Detectives PG | 1hr 49m | |
| | 7.30pm | **Wright & Grainger's Selene** 15 | 1hr 10m | |

**LL** - Little Lanterneers **TS** - Teen Screen **MM** - Magic Mondays **GA** - Golden Agers

**DS(S)** - Descriptive Subtitles on Screen **FC** - Film Club

## Jo in the Water 12A 1hr 17m

MM GA

### Plus Q&A with director Pip Piper




Jo in the Water follows a passionate sea swimmer turned reluctant activist, Exmouth-based Jo Bateman, as she takes on one of the UK's biggest water companies in a David-and-Goliath battle to protect our waters from devastating sewage pollution.

As Jo's courage helps ignite a growing movement, this film exposes the dire state of our water system and asks: who will stand up for our right to swim in clean natural waters, for the species and communities that rely upon them?

*"At its core, this documentary is a call to arms – a meditation on how we live, how we treat our planet and its wildlife, and how we must fight to reclaim our right to a clean, thriving natural world. Jo's courage will inspire, her struggle will enrage, and her love for the sea will remind us all of what we stand to lose if we do not act now".* **Pip Piper, Director**

**Friday 19th June at 2pm**

**Mae Jo in the Water yn dilyn nofiwr môr angerddol a drodd yn ymgyrchydd, Jo Bateman o Exmouth, wrth iddi herio un o gwmnïau dŵr mwyaf y DU mewn brwydr Dafydd a Goliath i amddiffyn ein dyfroedd rhag llygredd carthffosiaeth dinistriol.**

**Wrth i ddewrder Jo helpu i danio ymgyrch sy'n tyfu, mae'r ffilm yn datgelu sefyllfa enbyd ein system ddŵr ac yn gofyn: pwy fydd yn sefyll dros ein hawl i nofion mewn dyfroedd glân, gloyw, er budd y rhywogaethau a'r cymunedau sy'n ddibynnol arnynt?**

*"Yn ei hanfod, mae'r rhaglen ddogfen hon yn alwad i'r gad — myfyrdod ar sut rydym yn byw, sut rydym yn trin ein planed a'i bywyd gwyllt, a sut mae'n rhaid i ni ymladd i adennill ein hawl i fyd naturiol glân a ffyniannus. Bydd dewrder Jo yn ein hysbrydoli, bydd ei brwydr yn ein gwylltio, a bydd ei chariad at y môr yn ein hatgoffa ni i gyd o'r hyn y gallwn ei golli os na fyddwn yn gweithredu nawr".*

**Pip Piper, Cyfarwyddwr**

## Nostalgia Matinees

### My Fair Lady U 2hr 50m

**Tuesday 30th June at 1.30pm**

**ALL TICKETS £5**

**The start of a monthly screening of nostalgia films which are Dementia Friendly.**

Join us on the last Tuesday of every month to watch an old classic on the big screen. Doors will open at 1pm for refreshments and a chance to socialise before the film. There will be no adverts or trailers. The lighting will be left on but dimmed throughout so people can move around if they wish and the sound will be lowered.

This month is the utterly wonderful My Fair Lady. In 1910s London, snobbish phonetics professor Henry Higgins agrees to a wager that he can make a crude flower girl, Eliza Doolittle, presentable in high society.





**Dechrau dangosiadau misol o glasuron y byd ffilmiau sy'n Gyfeillgar i Ddementia.**

**Ymunwch â ni ar ddydd Mawrth diwethaf bob mis i wylio hen glasur ar y sgrin fawr. Bydd y drysau'n agor am 1pm ar gyfer lluniaeth a chyfle i gymdeithasu cyn y ffilm. Ni fydd unrhyw hysbysebion na rhagflasau. Bydd y goleuadau'n cael eu gadael ymlaen ond wedi'u pylu drwy gydol y dangosiad fel y gall pobl symud o gwmpas os dymunant a bydd y sain yn cael ei ostwng.**

**Y mis hwn byddwn yn dangos y ffilm gwbl hyfryd, My Fair Lady. Yn Llundain yn ystod y 1910au, mae'r athro seineg ffroenuchel, Henry Higgins, yn cytuno i fet y gall droi merch gyffredin sy'n gwerthu blodau, Eliza Doolittle, yn aelod gweddus o fyd y boneddigion.**









**We are thrilled to host a full season of events to celebrate the 125th Anniversary of films being shown in our beautiful building.**

**Event tickets are now on sale!**




**Saturday 13th June at 7.30pm**

### Cocktails & Classics

### Legally Blonde 12A 1hr 36m

TS

Tickets: Standard £10.50 / £8 Members

This classic sees fashionable sorority queen Elle follow her ex-boyfriend to law school, where she discovers that there is more to her than just her looks.

Think Pink! Pink outfits, pink cocktails - go wild!

**Mae'r clasur hwn yn dilyn y frenhines chwaeroliaeth ffasiynol, Elle, wrth iddi fynd ar hynt ei chyn-gariad i astudio'r gyfraith, lle mae hi'n darganfod bod mwy iddi na'i hedrychiad yn unig.**

**Popeth Pinc! Gwisgoedd pinc, coctels pinc - ewch yn wallgof!**

GREAT SCOTT!

**Saturday 20th June at 7pm**

### Back to the Future plus Live Music 80s Extravaganza! PG 1hr 56m

Marty McFly, a 17-year-old high school student, is accidentally sent 30 years into the past in a time-traveling DeLorean invented by his close friend, the maverick scientist Doc Brown.

Join us as we hit 88mph and travel back to the 80s after the film with a talented local group of musicians coming together to play an extra special one-off gig featuring all your favourite throwback tracks on the main stage!

**It's going to be a night to remember generating at least 1.21 gigawatts of party energy!**

**Mae Marty McFly, myfyriwr ysgol uwchradd 17 oed, yn cael ei anfon ar ddamwain 30 mlynedd i'r gorffennol mewn DeLorean a all deithio yn ôl ac ymlaen mewn amser a ddyfeisiwyd gan ei ffrind agos, y gwyddonydd ecsentrig, Doc Brown.**

**Ymunwch â ni wrth i ni gyrraedd 88mya a theithio'n ôl i'r 80au ar ôl y ffilm gyda grŵp lleol o gerddorion talentog yn dod at ei gilydd i chwarae gig unigryw ac arbennig iawn yn cynnwys eich holl hoff ganeuon o'r cyfnod ar y prif lwyfan!**

**Bydd yn noson i'w chofio gan gynhyrchu o leiaf 1.21 gigawat o egni parti!**



# Friday Night is **Music Night**

**FREE ENTRY/AM DDIM**
**Doors 8.30pm for a 9pm start**

**Every Friday night we have live music in the bar. It's always fabulous and always FREE! Under 15's must be accompanied by an adult.**

**Mae gennym gerddoriaeth fyw yn y bar, bob nos Wener. Noson wych, am ddim, bob amser. Rhaid i blant a phobl ifanc o dan 15 gael cwmni oedolyn**

## Friday 5th June

### Open Mic Night



The Open Mic Nights have been running at the Lantern since 2011 and they're a highlight of the month, celebrating our brilliant local music scene.
Please email us to book a performer slot - all musical styles welcome.

**Mae'r Nosweithiau Meic Agored wedi cael eu cynnal yn y Llusern ers 2011, a dyma uchafbwynt y mis, sy'n dathlu ein sîn gerddoriaeth leol ragorol. Anfonwch e-bost atom i drefnu slot perfformiwr – mae croeso i bob arddull cerddorol.**

## Friday 12th June

### Still Hate Thatcher




Jagged garage punk with a pop instinct and a British snarl. Raised on Ramones, rattled by reality, and ready to shout about it. Lo-fi, DIY, and making noise.

**Cerddoriaeth pync garej miniog gyda dylanwad pop a naws Prydeinig. Wedi'i magu ar y Ramones, wedi'u hysgwyd gan realiti, ac yn barod i godi stŵr amdano. Lo-fi, DIY, a chodi twrw.**

## Friday 19th June

### Laundrette + The Muralists




Laundrette are a four-piece from mid Wales, blending trip-hop, post-punk, dream-pop, and alt-rock into a darkly cinematic sound.

The Muralists are a fresh contemporary acoustic-leaning folk-blues band focused on delivering uncomplicated music. Expect warm tone, evocative lyricism, and ambient melody.

**Mae Laundrette yn grŵp o bedwar o ganolbarth Cymru, sy'n cyfuno trip-hop, ôl-bync, pop-breuddwydiol, a roc-amgen i greu sain sinematig dywyll.**

**Mae'r Muralists yn fand blŵs-gwerin cyfoes ffres sy'n tueddu at gerddoriaeth acwstig ac sy'n canolbwyntio ar gyflwyno cerddoriaeth syml. Gallwch ddisgwyl tôn gynnes, telynegiaeth atgofus, ac alaw sy'n eich amgylchynu.**

## Friday 26th June


### The Midnight Jukes




Shrewsbury based four-piece 50s/60s Rock'n'Roll band with influences from Rockabilly, Doo-Wop, Blues.

**Band Roc a Rôl arddull y 50au/60au o Amwythig gyda dylanwadau Rockabilly, Doo-Wop, a'r Blŵs.**

# Regular **Events**





**Every Tuesday at 9pm we welcome Ian and Claire to The Lantern to host their fantastic quiz.**

It really is a fun night out and everyone is welcome, no limit to team sizes and it is just £1 per person (payable on the night)
Quiz Night is getting more and more popular and we recommend arriving from 8.30pm to get a table. Otherwise it is cinema seats for you, perfectly comfortable but slightly harder to huddle round and confer!

**Bob nos Fawrth am 9pm, mae'r Llusern yn estyn croeso i Ian a Claire ar gyfer cynnal cwis gwych.**

**Dyma noson yn llawn hwyl ac mae croeso i bawb ddod draw – ni chyfyngir ar faint y timau a £1 y pen yn unig yw'r gost (i'w dalu ar y noson).**

**Mae ein Noson Cwis yn fwyfwy poblogaidd ac argymhellwn eich bod yn cyrraedd o 8.30pm ymlaen er mwyn cael bwrdd. Fel arall, cewch eistedd ar seddi'r sinema – cyfforddus iawn, ond braidd yn anodd dod ynghyd i drafod atebion!**




Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru
THE NATIONAL LOTTERY
BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK

Look out for **FC** next to the listings. There's no cost involved, there's no pressure to contribute anything, it's just a lovely opportunity to find out a bit more about interesting films and share any thoughts you have if you want to.

**Cadwch lygad am FC wrth restr y dangosiadau. Nid oes unrhyw gost, a dim pwysau i gyfrannu unrhyw beth, cyfle hyfryd ydyw i ddysgu rhagor am ffilmiau diddorol a rhannu unrhyw farn sydd gennych, os ydych yn dymuno.**

This month's meeting's will take place after the films on the following dates:

**Wednesday 3rd June at 7.30pm**
**The Christophers** 15 1hr 40m

**Wednesday 10th June at 7.30pm**
**Rose of Nevada** 15 1hr 54m

**Cynhelir cyfarfodydd y mis hwn ar ôl y ffilmiau ar y dyddiadau canlynol:**

**Dydd Mercher 3ydd Mehefin am 7.30pm**
**The Christophers** 15 1hr 40m

**Dydd Mercher 10fed Mehefin am 7.30pm**
**Rose of Nevada** 15 1hr 54m

ffilm
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
WE LEARN WELSH
THE MAGIC LANTERN
Noson Allan
Night Out

**Iaith i Bawb is a year long season of Welsh Language films plus events, supported by Ffilm Cymru with funding from the National Lottery.**

**Mae Iaith i Bawb yn dymor blwyddyn o hyd o ffilmiau Cymraeg ynghyd â digwyddiadau, wedi'i gefnogi gan Ffilm Cymru gyda chyllid gan y Loteri Genedlaethol.**




## Effi o Blaenau

15 1hr 30m

Daily screenings from week commencing Friday 19th June

**Dangosiadau dyddiol o ddydd Gwener 19eg o Fehefin**

We are absolutely thrilled to bring you new Welsh language film on its release date!

Sara & Rowan were lucky enough to see a preview screening a few months ago and they both thought it was absolutely fantastic.

Based on Gary Owen's much lauded and widely performed monodrama, Iphigenia in Splott, 'Effi o Blaenau' is director Marc Evans' cinematic interpretation set against the wide open landscapes of North Wales.

Effi is a young woman desperate to escape a town where the pubs are closed, the jobs have vanished and her grandmother works night shifts in the local chip shop just to get by. A chance encounter in a Llandudno nightclub with injured soldier Lee, played by Tom Rhys Harries, briefly opens a door to something better. For a moment, Effi glimpses a life she never imagined. The reality that follows is far tougher. Leisa Gwenllian gives a searing performance as Effi, evoking condemnation and sympathy in equal measures.

**SGRIN A SGWRS** – On Saturday 20th June, join Heather from 'We Learn Welsh' to watch the film and then discuss it afterwards... in Welsh! A great opportunity to practise your Welsh conversation skills. Fluent Welsh speakers very welcome to help keep the conversation flowing!

**Rydym wrth ein bodd o gael cyflwyno ffilm Gymraeg newydd ar y diwrnod y caiff ei rhyddhau! Bu Sara a Rowan yn ddigon ffodus o gael ei gweld yn gynnar ychydig fisoedd yn ôl ac roedd y ddau yn meddwl ei bod yn gwbl wych. Yn seiliedig ar fonodrama Gary Owen, sydd wedi'i chanmol yn fawr a'i pherfformio'n eang, Iphigenia in Splott, mae 'Effi o Blaenau' yn ddehongliad sinematig y cyfarwyddwr Marc Evans wedi'i osod yn erbyn tirweddau eang ac agored Gogledd Cymru.**

**Mae Effi yn fenyw ifanc sy'n dyheu am gael gadael tref lle mae'r tafarndai wedi cau, y swyddi wedi diflannu a lle mae ei nain yn gweithio sifftiau nos yn y siop sglodion lleol i gael deupen llinyn ynghyd. Mae cwrdd ar hap â milwr sydd wedi'i anafu mewn clwb nos yn Llandudno, wedi'i chwarae gan Tom Rhys Harries, yn agor drws iddi i rywbeth gwell. Am ennyd, mae Effi yn cael cip ar fywyd na wnaeth erioed ei ddychmygu. Ond mae'r realiti a ddaw wedi hynny yn llawer anoddach. Mae Leisa Gwenllian yn rhoi perfformiad tanbaid fel Effi, gan ennyn condemniad a chydymdeimlad fel ei gilydd.**

**Ar ddydd Sadwrn yr 20fed o Fehefin, ymunwch a Heather o 'We Learn Welsh' i wylio'r ffilm ac yna ei thrafod...yn Gymraeg! Cyfle gwych hi ymarfer eich sgiliau sgwrsio yn y Gymraeg. Mae croeso mawr i siaradwyr Cymraeg rhugl i annog y sgwrs!**




## Patagonia

GA

15 1hr 59m

### Plus Q&A with Lisa Markham

**Saturday 6th June at 3pm**

Patagonia is a 2010 Welsh-Argentine drama film co-written and directed by Marc Evans. Two women, two secrets, two different stories, connected through "Y Wladfa" - the real-life Welsh settlement in Patagonia, Argentina, established in 1865.

Following the film on the 6th June, there will be a Q&A with Lisa Markham. Find out about her unforgettable adventure to Patagonia with family and friends at the end of 2024 under the care of Patagonia Tours.

**Dwy fenyw, dwy gyfrinach, dwy stori wahanol, wedi'u cysylltu trwy "Y Wladfa" - yr anheddiad Cymreig go iawn ym Mhatagonia, yr Ariannin, a sefydlwyd ym 1865. Cyfarwyddwr: Marc Evans.**

**C&A Yn dilyn y ffilm ar 6ed Mehefin, ymunwch â Lisa Markham i glywed am ei hantur bythgofiadwy i Batagonia gyda theulu a ffrindiau ar ddiwedd 2024 dan ofal Patagonia Tours.**

## Ymarfer Club

Saturday 6th June

10am to 11.30am

## Free / Am ddim


**Come and chat in Cymraeg!**

Everyone welcome, including beginners, advanced learners and native speakers.

**Dewch i sgwrsio yn y Gymraeg!**

**Croeso i bawb, gan gynnwys dechreuwyr, dysgwyr uwch a siaradwyr brodorol.**

# Theatre **on Screen**




## NT Live: Les Liaisons Dangereuses

12A 2hr 30m

### Saturday 27th June at 7.30pm

Tickets: Standard £13 Seniors £11 Members £10 Under 25 £8.50


Marquise de Merteuil is a master in the art of survival. Alongside the magnetic Vicomte de Valmont, they turn seduction into strategy and weaponise desire. But when their alliance collapses into rivalry, the battle between them threatens to destroy everyone in their path.

Filmed live on stage at the National Theatre, Marianne Elliott directs this thrilling game of love, lies, and social warfare.

Mae Marquise de Merteuil yn feistr o grefft goroesi. Ynghyd â'r Vicomte de Valmont carismatig, maent yn troi hudo'n strategaeth ac yn defnyddio chwant fel arf. Ond pan fydd eu cyfeillgarwch yn chwalu ac yn troi'n gystadleuaeth, mae'r frwydr rhyngddynt yn bygwth dinistrio pawb o'u cwmpas.

Wedi'i ffilmio'n fyw ar lwyfan y Theatr Genedlaethol, mae Marianne Elliott yn cyfarwyddo'r gêm gyffrous hon o gariad, celwyddau a rhyfel cymdeithasol.

# **Live** Theatre




## Wright & Grainger's Selene

15 1hr 10m

### Thursday 2nd July at 7.30pm

Tickets: Standard £14 Seniors £13 Members £10.50 Under 25 £10.50

**We are absolutely thrilled to be welcoming back for the 3rd time, the latest production from Award Winning Wright & Grainger. We were blown away by their previous shows Orpheus and Helios and can't wait to see what they have in store for us with Selene.**

SELENE is a radical exploding of an ancient myth.
It's about how we grow up living defined by our bodies, and about what happens when that changes.
It's a story about what we're stuck in the orbit of.
It's a story about the light sides of us and the dark sides of us.
And it's about the stuff inside us. All the wild stuff inside of us.

**This event is supported by Noson Allan**

Noson Allan Night Out

**Rydym wrth ein bodd o gael croesawu'n ôl, a hynny am y 3ydd tro, y cynhyrchiad diweddaraf gan Wright & Grainger. Roeddem wedi'n synnu gan eu sioeau blaenorol Orpheus a Helios ac rydym yn edrych ymlaen at weld beth fydd ganddynt ar ein cyfer gyda Selene.**

Mae SELENE yn ail-ddadansoddiad radicalaidd o chwedl hynafol.
Mae'n son am sut rydyn ni'n tyfu i fyny wedi ein diffinio gan ein cyrff, ac am yr hyn sy'n digwydd pan fydd hynny'n newid.
Mae'n stori am yr hyn yr ydym yn sownd yn ei gylch.
Mae'n stori am yr ochrau da a'r ochrau drwg ohonom.
Ac mae'n trafod beth sydd y tu mewn i ni. Yr holl bethau gwyllt y tu mewn i ni.

**Cefnogir y digwyddiad hwn gan Noson Allan**



# Coming **Next Month**

## Open Mic Night Celebration

### Friday 3rd July

8pm (Doors from 7pm) **FREE ENTRY**

**As part of our 125 season of events to commemorate the long history of Tywyn Cinema, we are taking an evening to celebrate the longest running and most successful event in our regular calendar, The Magic Lantern Open Mic Night.**



Set up by Rowan 15 years ago, the Open Mic night is a monthly gathering of musicians both local and from further afield. It's a wonderful night, people may be making their first ever public performance and our audiences are always so welcoming and supportive.


For this event we are inviting musicians who have helped form the Open Mic story, from musicians who have supported the event from the very beginning to those who played here for the very first time to those who only played once but lived long in the memory!

**Fel rhan o'n tymor 125 o ddigwyddiadau i goffáu hanes hir Sinema Tywyn, rydym yn cymryd noson i ddathlu'r digwyddiad hiraf a mwyaf llwyddiannus yn ein calendr rheolaidd. Noson Meic Agored y Llusern Hud.**

Wedi'i sefydlu gan Rowan 15 mlynedd yn ôl, mae'r noson Meic Agored yn gasgliad misol o gerddorion lleol a thu hwnt. Mae'n noson wych, efallai bod pobl yn gwneud eu perfformiad cyhoeddus cyntaf erioed ac mae ein cynulleidfaoedd bob amser mor groesawgar a chefnogol.

Ar gyfer y digwyddiad hwn rydym yn gwahodd cerddorion sydd wedi helpu i ffurfio stori'r digwyddiad Meic Agored, o gerddorion sydd wedi cefnogi'r digwyddiad o'r cychwyn cyntaf i'r rhai a chwaraeodd yma am y tro cyntaf erioed i'r rhai a chwaraeodd unwaith yn unig ond a arhosodd yn y cof!

# Ar Ddod **Mis Nesaf!**




## Reverend W Awdry : The Thomas the Tank Engine Man

U 50m

### Sunday 19th July at 3pm and 6pm

Tickets Standard £14 Seniors £13 Members £10.50 Under 25 £10.50

A wonderfully funny tale of the clerical railway enthusiast who brought us Thomas and his friends. A new fast-paced piece with music of the age and a story that keeps on track. The Reverend Awdry created stories for his son who was sick in bed, the result was some of the most endearing children's tales and characters of all time. This new energetic production from Searchlight looks behind the trains at the man who brought them magically to life, on time and still hugely popular.

Stori hynod ddoniol am yr awdur clerigol a oedd yn frwd am reilffyrdd a wnaeth ein cyflwyno i Tomos a'i ffrindiau. Darn newydd cyflym gyda cherddoriaeth yr oes a stori sy'n cadw ar y cledrau. Creodd y Parchedig Awdry straeon i'w fab a oedd yn wael yn ei wely, a'r canlyniad oedd rhai o'r straeon a chymeriadau plant mwyaf hoffus erioed. Mae'r cynhyrchiad egnïol newydd hwn gan Searchlight yn edrych y tu ôl i'r trenau ar y dyn a ddaeth â nhw'n fyw - yn amserol ac yn dal i fod yn hynod boblogaidd.

# BOX OFFICE OPENING TIMES

**If you book 24 hours in advance you can save money!**

Call in or phone the Box Office:

| | |
|---|---|
| Mon | 11am - 9pm |
| Tue - Thur | 3pm - 9pm |
| Friday - Saturday | 6pm - 10pm |
| Sunday | 10am - 3pm |

Book online at **www.tywyncinema.co.uk**
Telephone: **01654 710260**

## Parking

There are 3 general and two disabled parking bays directly in front of the cinema and several parking spaces across the road and next to the Corbett Hotel. You can also find two free car parking areas on Ffordd Gwalia, the road directly between the cinema and St Cadfan's Church.

## Dogs

If your dog will sit quietly throughout the film you are welcome to bring them, on their lead, in the STALLS but not on the balcony. However, if your dog starts to cause a disruption, you will need to remove them, without any associated refund.

## Prices

Book 24 hours in advance, online, over the phone or at the Box Office to receive a £1 discount on all tickets.

| | |
|---|---|
| Standard Adult (15 - 60) | **£9.00** |
| Members | **£7.00** |
| Child (1 - 14) | **£8.00** |
| Senior (60+) | **£8.00** |

# ORIAU AGOR Y SWYDDFA DOCYNNAU

**Os ydych yn archebu 24 awr ymlaen llaw gallwch arbed arian!**

**Galwch i mewn neu ffoniwch y Swyddfa Docynnau:**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11am - 9pm |
| Dydd Mawrth - Dydd Iau | 3pm - 9pm |
| Dydd Gwener - Dydd Sadwrn | 6pm - 10pm |
| Dydd Sul | 10am - 3pm |

Archebwch ar-lein yn **www.tywyncinema.co.uk**
Ffôn: **01654 710260**

## Parcio

Ceir tri man parcio cyffredinol a dau ar gyfer pobl anabl yn union o flaen y sinema, ynghyd â nifer o fannau parcio dros y ffordd, y drws nesaf i Westy'r Corbett Hotel. Gallwch ddod o hyd i ddau fan parcio am ddim ar Ffordd Gwalia hefyd, sef y ffordd sy'n union rhwng y sinema ac Eglwys Sant Cadfan.

## Cŵn

Os bydd eich ci yn eistedd yn dawel drwy gydol y ffilm, mae croeso ichi ddod ag ef gyda chi, ar dennyn. Cewch eistedd yn y seddi ar y llawr gwaelod, ond ni chewch eistedd ar y balconi. Ond pe bai eich ci yn dechrau cynhyrfu, bydd angen ichi ei dywys o'r sinema, heb unrhyw ad-daliad cysylltiedig.

## Prisiau

Archebwch 24 awr ymlaen llaw, ar-lein, dros y ffôn neu yn y Swyddfa Docynnau i dderbyn gostyngiad o £1 ar bob tocyn.

| | |
|---|---|
| Oedolyn Safonol (15 - 60) | **£9.00** |
| Aelodau | **£7.00** |
| Plentyn (1 - 14) | **£8.00** |
| Hŷn (60+) | **£8.00** |